# Y Manteision o Weithio yng Nghyngor Sir y Fflint



2021 - 2024

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint

Mewn lleoliad unigryw mae Sir y Fflint yn borth i Gymru – bydd unrhyw un sy'n dod i weithio gyda ni yn darganfod sir hardd iawn.

Archwiliwch drefi diddorol fel yr Wyddgrug gyda'i Marchnad Stryd a gŵyl bwyd a diod, Treffynnon, cartref Ffynnon Winefride, un o Saith Rhyfeddod Cymru, y Fflint, gyda'i gastell canoloesol a marchnad a Caerwys, sy'n cael ei ystyried fel un o'r trefi lleiaf gyda Siarter Frenhinol.

Mae llawer o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol fel yr adeilad rhestredig Graddfa 1, Llyfrgell Gladstone ym Mhenarlâg. Llyfrgell breswyl orau Prydain, cafodd ei sefydlu gan y gweinidog William Gladstone ym 1889. Ewch i ymweld ag Abaty Dinas Basing ger Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, cymysgedd ddiddorol o felinau a chronfeydd dŵr sy'n dangos y gorffennol diwydiannol.

Os ydych chi'n chwilio am wyliau ar lan y môr, penwythnos hamddenol, ychydig o therapi siopa neu ddiwrnod allan gyda'r teulu, dechreuwch ddarganfod Sir y Fflint yma.

http://www.discoverflintshire.com

Ymfalchïwn yn y ffordd rydym yn gwella ein gwasanaethau'n barhaus. Fel cyflogwr, cydnabyddwn mai'n hased mwyaf gwerthfawr yw ein pobl. Ymdrechwn i fod yn gyflogwr delfrydol trwy ddarparu ystod o fuddiannau sy'n ein helpu i sicrhau ymrwymiad gweithwyr a'u hysgogi i ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion Sir y Fflint.

Mae perfformiad a datblygiad gwell ein gweithwyr yn cael ei reoli drwy broses rheoli perfformiad, yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, cymwysterau a galluoedd sy'n canolbwyntio ar Fframwaith Cymhwysedd ymddygiad Sir y Fflint sy'n cefnogi amcanion allweddol y Cyngor. Yn y pen draw, rydym yn cydnabod y bydd gweithwyr bodlon, sydd wedi'u datblygu, ac sydd â'r sgiliau cywir yn darparu'r gwasanaeth gorau i ddinasyddion Sir y Fflint a'r rhai sy'n gweithio ac yn byw yn y Sir.

## Cyfleoedd Cyfartal

Mae'n bwysig inni sicrhau amrywiaeth yn y gweithle. Nid mater o ufuddhau'r gyfraith yn unig mo hyn, mae'n golygu cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau ein gilydd a thrin ein gilydd yn deg. Dymunwn gydnabod gwerth pawb beth bynnag eu hoedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, a sicrhau cydraddoldeb ymhob rhan o'r Cyngor. Dymunwn barchu pobl eraill a bod yn gyflogwr sensitif a charedig. Mae pobl yn perfformio'n

well pan maent yn bod yn hwy eu hunain, ac mae hyn yn ein galluogi i adlewyrchu'r gymuned y darparwn wasanaethau ar ei chyfer.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn falch o fod yn Gyflogwr Cofrestredig Hyderus o ran Anabledd, ac o fod wedi gweithio â'r Gymdeithas Alzheimer's i hyfforddi aelodau o staff er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad sy'n Deall Dementia.

## Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad. Golyga hyn bod yn rhaid i'r Cyngor gynnig cyfweliad i bawb sydd â nodwedd sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac sy'n hysbysu'r Cyngor o hynny ar adeg ymgeisio am swydd, ac sy'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd dan sylw. Mae hyn yn unol â'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

## Cynllun Gwarantu Cyfweliad i Gyn-filwyr

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyflwyno cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Mae'r Cynllun yn cyflawni addewidion y Cyfamod Cymunedol. Mae cyn-filwyr yn sicr o gael cyfweliad, ar yr amod y bodlonir y meini prawf canlynol:

- Y Lluoedd Arfog oedd cyflogwr hirdymor diwethaf yr unigolyn dan sylw.
- Nid oes mwy na 3 blynedd wedi mynd heibio ers i'r unigolyn ymadael â'r Lluoedd Arfog.
- Mae'r Cyn-filwr yn cwrdd â meini prawf hanfodol y swydd a hysbysebwyd.

## Gwyliau Blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus

Mae Cyngor Sir y Fflint yn hyrwyddo cydbwysedd bywyd a gwaith cadarnhaol ac iach ac yn cydnabod pwysigrwydd gwyliau blynyddol er mwyn cyflawni hyn.

Yr hawl ar gyfer gweithwyr y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer y Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd) a Chyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer y Llywodraeth Leol – Pwyllgor Soulbury (Llyfr Glas) yw:

- Ar Benodiad i'r Cygnor — 26 diwrnod (yn cynnwys 8 Gŵyl y Banc)
- Ar ôl 5 mlynedd o Wasanaeth Parhaus — 30 diwrnod (yn cynnwys 8 Gŵyl y Banc)
- Ar ôl 10 mlynedd o Wasanaeth Parhaus — 33 diwrnod (yn cynnwys 8 Gŵyl y Banc)

Bydd gwyliau blynyddol a gwyliau banc gweithwyr rhan-amser yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.

## Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol Ychwanegol

Mae gan weithwyr gyfle i "brynu" hyd at uchafswm o 2 wythnos (74 awr neu 10 diwrnod ar gyfer llawn amser- byddai ar sail pro rata ar gyfer staff rhan amser) o wyliau ychwanegol ym mhob blwyddyn wyliau.

Mae gwyliau blynyddol ychwanegol yn ddi-dâl, a bydd cost gwyliau ychwanegol yn cael ei dynnu o gyflog y gweithiwr. Ni fydd toriad yn eu cyflogaeth yn ystod y cyfnod o wyliau di-dâl ac fe gynhelir eu gwasanaeth parhaus.

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Fe fydd yr holl gyflogeion yn cael eu cofrestru dan gontract i gynllun pensiwn ar ddiwrnod 1 neu pan ddônt yn gymwys, cyn belled â bod yna gytundeb cyflogaeth sydd am o leiaf 3 mis. I gytundebau llai na 3 mis, fe all cyflogeion 'optio i mewn' i'r cynllun.

10 rheswm dros ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

1. Mae cyfraniadau pensiwn yn cael eu tynnu o'ch cyflog cyn treth felly rydych yn derbyn gostyngiad yn y dreth
2. Dim ffioedd cudd neu ffioedd gweinyddol
3. Mae eich cyflogwr yn cyfrannu hefyd
4. Dewis i dalu cyfraniadau pensiwn uwch i gynyddu eich pensiwn blynyddol neu swm cyfandaliad ar ôl ymddeol
5. Gallwch ymddeol rhwng 55* a 75 mlwydd oed
6. Gwarchodaeth salwch ar unrhyw oedran
7. Pensiwn blynyddol yn daladwy am oes ar ôl i chi ymddeol, a bydd yn cynyddu yn unol â chostau byw bob mis Ebrill
8. Opsiwn i greu cyfandaliad di-dreth ar ôl ymddeol
9. Grant Marwolaeth i'w dalu i'ch anwyliaid
10. Pensiwn goroeswyr yn daladwy i gymar/bartner ac unrhyw blant sy'n gymwys

*Sylwer: Bydd yr isafswm oed pensiwn yn cynyddu o 55 i 57 o 6 Ebrill 2028 ar draws y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn y DU. Mae'r Ddeddf Cyllid yn darparu ar gyfer oed pensiwn

gwarchodedig i aelodau sy'n bodloni'r amod hawlio. Nid yw'n hysbys eto a fwriedir newid rheoliadau CPLlL i gyflwyno oedran pensiwn gwarchodedig.

Gallwch ddarllen mwy am y cynllun drwy fynd i
https://mss.clwydpensionfund.org.uk/home/index.html

## Cynllun Rhannu Cost CGY

Mae Cyngor Sir Y Fflint nawr yn cynnig mynediad i aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gynllun Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol drwy Rannu Cost (CGY Rhannu Cost), a gynhelir gan ein partneriaid AVC Wise.

Mae Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol safonol yn ffordd treth-effeithiol i gynilo ar gyfer ymddeol ac mae'n rhoi cyfle i chi ychwanegu at eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i greu cronfa ymddeol ychwanegol. Maent ar gael ac yn fuddiol i chi, pa mor bynnag bell neu agos ydych at ymddeol.

Darllenwch fwy ar www.avcwise.co.uk

## Tâl Salwch Galwedigaethol

Os ydych i ffwrdd yn sâl, rydym yn gweithredu Cynllun Tâl Salwch Galwedigaethol, lle gallwch dderbyn tâl llawn neu hanner tâl, yn dibynnu ar hyd eich gwasanaeth am hyd at 26 wythnos, yn ogystal â'ch hawl i Dâl Salwch Statudol.

Mae gennym Bolisi Rheoli Presenoldeb cynhwysfawr sydd â'r nod o gefnogi a chynorthwyo unigolion yn y gwaith, pan maent i ffwrdd yn sâl a phan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith.

## Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Er mwyn eich cynorthwyo i gydbwyso gofynion y gwaith a'r cartref, mae gennym ystod o ddewisiadau gweithio'n hyblyg, yn cynnwys:

- Rhannu Swydd
- Lleihau Oriau neu Weithio'n Rhan-amser
- Cytundebau yn Ystod y Tymor
- Oriau Cywasgedig

Mae gennym ystod o bolisïau yn cynnwys:

- Darpariaethau Ystyriol o Deuluoedd, yn cynnwys Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu a Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir.

- Gweithio'n Hyblyg
- Absenoldeb Arbennig, yn cynnwys amser i ffwrdd ar gyfer argyfyngau a phrofedigaeth
- Gweithio Ystwyth
- Gweithio a Gofalu

## Undebau Credyd

Gallwch ymuno â'r Undeb Credyd lleol, sy'n sefydliad ariannol cydweithredol dielw. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ariannol cystadleuol, gan gynnwys cyfrifon banc, cynilion, morgeisi, benthyciadau ac yswiriant.

Daw'r taliadau'n syth o'ch cyflog, ac mae'n un o'r ffyrdd hawddaf o ddelio gyda'ch arian. Gallwch ddarllen mwy am yr Undeb Credyd drwy ddilyn y dolenni cyswllt canlynol.

Undeb Credyd Cambrian – https://www.cambriancu.com/cy

## eWobrau yng Nghyngor Sir y Fflint

Mae eWobrau yn gynllun buddion unigryw ar gyfer gweithwyr Cyngor Sir y Fflint, ac mae'n cynnig amrywiaeth fendigedig o arbedion.

## Cerdyn Vectis a'r Ganolfan eWobrau

Bydd gweithwyr ar gontract parhaol a chyfnod penodol dros dro (nid yw gweithwyr wrth gefn a chyflenwi yn gymwys), yn cael cyfarwyddiadau i gofrestru eu cyfrif drwy'r ap Cerdyn Vectis am ddim ar yr Apple Store neu Google Play, pan fyddant yn ymuno a'r Cyngor. Mae yna filoedd o gynigion a buddion ar gael a allai arbed cannoedd o bunnoedd i chi ar eich siopa bob dydd, costau moduro a'ch gwariant ar iechyd a lles.

Gallwch arbed arian drwy ddefnyddio'r Ap Vectis i gael gostyngiadau ar-lein, gostyngiadau ar docynnau anrheg ac arian yn ôl a gostyngiadau ar nwyddau mewn siopau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiadau yn siopau'r stryd fawr, mewn sinemâu a bwytai a gostyngiadau ar foduro, yswiriant, gwestai a gwyliau.

Yn ogystal ag arbedion ffordd o fyw, gallwch dalu am fwy fyth o bethau gyda'n cynlluniau aberthu cyflog. Drwy ildio rhan o'ch cyflog (a gaiff ei eithrio o'r cyfrifiadau Yswiriant Gwladol a Threth) byddwch yn elwa'n fawr.

## Beicio i'r Gwaith – Cynllun Aberthu Cyflog

Mae'r cynllun Beicio i'r Gwaith yn gynllun aberthu cyflog y mae'r Llywodraeth wedi'i gymeradwyo er mwyn eich galluogi i sefydlu cytundeb hurbrynu i gael beic a chyfarpar at ddibenion beicio i'r gwaith. Caiff eich taliadau eu heithrio o'r cyfrifiadau treth ac yswiriant gwladol, ac felly byddwch yn arbed arian ar yr un pryd â chadw'n heini, lleihau eich ôl troed

carbon a threulio llai o amser yn y car. Drwy'r cynllun gallwch brynu un o blith cannoedd o feiciau da o fwy na 465 o siopau Halfords, Cycle Republic ac 860 o siopau beics annibynnol.

## Iechyd a Lles

Mae Adran Iechyd Galwedigaethol Sir y Fflint yn ymrwymo i hyrwyddo diwylliant lle mae iechyd corfforol a lles seicolegol staff yn cael ei barchu, ei amddiffyn a'i wella.

Caiff gwasanaethau'r Adran Iechyd Galwedigaethol eu harwain gan nyrsys, ac yn ein tîm mae gennym Ymarferwyr Iechyd Galwedigaethol Arbenigol a Nyrsys Iechyd Galwedigaethol profiadol sy'n medru rhoi cyngor ar bob math o bethau yn y gweithle sy'n medru effeithio ar iechyd y gweithwyr, neu allu'r gweithwyr i gyflawni eu swyddogaethau. Ar ben hynny rydym yn trefnu gwasanaethau arbenigol er mwyn cynnal lles corfforol a meddyliol y gweithwyr, gan gynnwys cynnig mynediad at wasanaethau ffisiotherapi a chwnsela.

## Meddalwedd Microsoft Gartref

Fel rhan o'n cytundeb gyda Microsoft mae gan weithwyr y Cyngor hawl i brynu copi o Microsoft Office at ddefnydd personol/cartref am bris rhad o £9.95. Os ydych chi'n gymwys gallwch brynu un drwydded ar gyfer naill ai Office Professional Plus 2016 neu Office for Mac 2016. Drwy'r drwydded honno gellir lawrlwytho Office a'i osod ar un peiriant.

## Cynllun Mantais Vodafone

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi creu partneriaeth â Vodafone i gynnig arbedion i weithwyr ar fwndeli talu bob mis Vodafone.

Dilynwch y ddolen i ddarganfod mwy:

https://advantage.vodafone.co.uk/

## Polisi Cyfeillgar i Faethu

Mae Cyngor Sir y Fflint yn awyddus i gefnogi gweithwyr sy'n ddarpar ofalwyr maeth a chefnogi'r rheiny sydd eisoes yn darparu gofal drwy roi amser i ffwrdd lle bo angen. Gall gweithwyr gael hyd at bum diwrnod o wyliau ychwanegol â thâl, a mwy o hyblygrwydd er mwyn cefnogi'r broses.

## Rhaglen Cymorth i Weithwyr

Gyda mwy a mwy o bwysau yn y gwaith a gartref, mae adegau pan mae pob un ohonom ni angen mwy o gymorth i gael cydbwysedd rhwng gofynion bywyd. Dyma pam mae Cyngor Sir y Fflint wedi dewis darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr cyfrinachol am ddim i'w holl weithwyr.

Y cyngor fydd yn talu am eich Rhaglen Cymorth i Weithwyr fel gwasanaeth cefnogi i chi fel gweithiwr, ac felly mae'n rhad ac am ddim i chi ei ddefnyddio. Darparwr annibynnol sy'n ei ddarparu, mae ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, a hynny dros y ffôn neu ar-lein.

Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio i'ch helpu gydag ystod eang o faterion yn ymwneud â'r gwaith, teulu neu faterion personol. O gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd i wybodaeth am ofal plant; perthnasoedd i faterion am y gweithle, iechyd a lles, gall y rhaglen gymorth eich cefnogi ar faterion sy'n effeithio pob un ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau. Mae pynciau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

| | |
|---|---|
| • Cydbwysedd bywyd a gwaith<br>• Perthnasoedd<br>• Gwybodaeth am ofal plant<br>• Iechyd a lles<br>• Dyled<br>• Anabledd a salwch<br>• Gyrfaoedd<br>• Galar a cholled<br>• Straen<br>• Cyfeiriadedd rhywiol | • Gwybodaeth ar ofal i bobl hŷn<br>• Digwyddiadau bywyd<br>• Mewnfudo<br>• Gorbryder ac iselder<br>• Materion teulu<br>• Bwlio ac aflonyddu<br>• Addysg<br>• Hawliau defnyddiwr<br>• Pwysau yn y gweithle<br>• Hunaniaeth rhywedd |

## Rheoli Anghenion Gofalwyr

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod y gallai fod gennych gyfrifoldebau gofalu sy'n cael effaith sylweddol ar eich bywyd y tu allan i'r gwaith. Mae ein polisi Rheoli Anghenion Gofalwyr yn darparu cymorth i ofalwyr i helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymiadau y tu allan i'r gwaith.

## Seibiant Gyrfa

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallwch fod angen cyfnod o amser o'r gwaith, i'w ddefnyddio ar gyfer teithio, anghenion gofal hirdymor, gwaith gwirfoddol neu i bwrpasau addysgol. Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at bolisi Seibiant Gyrfa'r Cyngor.

Ar y cyfan, mae Cyngor Sir y Fflint yn lle gwych i weithio, ac yn cynnig ystod eang o fuddiannau gweithwyr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Cyflogaeth. Ffôn: 01352 702060 neu employment.services@flintshire.gov.uk

Pob lwc gyda'ch cais!